
Ysgol Gymraeg Cwmbrân

# Dosbarth Meithrin
# Nursery Class



# Llyfryn Gwybodaeth
# Information Booklet

# Dysgu a chyflawni gyda'n gilydd

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Croeso i Ysgol Gymraeg Cwmbrân. Rydyn ni'n hyderus y bydd cyfnod eich plentyn gyda ni yn yr ysgol yn un hapus. Gobeithiwn bydd y llyfryn hwn o fudd i chi ac yn ateb llawer o'r cwestiynau sydd gennych.

Diolch yn fawr!


**Ysgol Gymraeg Cwmbrân**

Ffordd Henllys

St Dials

Cwmbrân

Torfaen

NP44 4HB

**Ffôn:** 01633 483383


**Gwefan:** www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk

**Twitter:** @YGCwmbran

**Schoop:** 10319


**Pennaeth:** Miss Catrin Evans

**Cadeirydd y Llywodraethwyr:** Mrs Jo Lewis



# Cawsom Iaith i'w Chadw

# Trefniadau ar gyfer dechrau yn y Feithrin:

Mae dechrau yn y Feithrin yn gam mawr ar gyfer bob plentyn a byddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod y broses mor hawdd â phosib i bob un. Trefnir cyfarfod i'r rhieni a'r plant Meithrin newydd yn ystod tymor yr Haf cyn mynediad y plant i'r Feithrin yn y mis Medi canlynol. Bydd cyfle i'r plant ymweld â'r ystafell ddosbarth a chwrdd â'r staff a fydd yn gofalu amdanynt.

# Oriau'r Feithrin:

| | |
|---|---|
| **Sesiwn y bore:** | 9:00 - 11.30 |
| **Sesiwn y prynhawn:** | 1:00 - 3:30 |

Mae'n bwysig eich bod chi'n dod â'ch plentyn i'r ysgol ac yn ei gasglu ar amser. Dewch â'ch plentyn i brif fynedfa'r Feithrin ar ddechrau'r sesiwn. Gallwch gasglu eich plentyn yma hefyd.

Dyma'r trefniadau ar gyfer gollwng a chasglu eich plentyn:

**Gollwng eich plentyn i ffwrdd** - Agorir y gatiau ger yr adeilad Meithrin cyn cychwyn y sesiwn am 8:45. Dewch â'ch plentyn drwy'r gatiau hyn at adeilad y Feithrin. Yma, bydd eich plentyn yn cael ei groesawu gan aelod o staff.

**Casglu eich plentyn** - Agorir y gatiau ger yr adeilad Meithrin gan aelod o staff cyn diwedd y sesiwn bore er mwyn casglu eich plentyn. Gadewch y safle drwy'r gatiau yma.

**<u>Sesiwn y prynhawn:</u>**

**Gollwng eich plentyn i ffwrdd -** Agorir y gatiau ger yr adeilad Meithrin cyn cychwyn y sesiwn am 12:55. Dewch â'ch plentyn drwy'r gatiau hyn at adeilad y Feithrin. Yma, bydd eich plentyn yn cael ei groesawu gan aelod o staff.

**Casglu eich plentyn** – Agorir y gatiau ger yr adeilad Meithrin gan aelod o staff cyn diwedd y sesiwn er mwyn casglu eich plentyn. Gadewch y safle drwy'r gatiau yma.

**Yn anffodus, nid yw'n bosib i chi barcio ar safle'r ysgol wrth ollwng neu gasglu eich plentyn.**







# Helpu eich plentyn i setlo

**Anogwch eich plentyn i fod yn annibynnol - mae'n rhoi hyder iddo.**

Pan fydd eich plentyn yn dechrau yn y Feithrin, bydd yn help mawr iddo os fedrai:

- Mynd i'r tŷ bach yn annibynnol, tynnu'r 'flush' a golchi a sychu dwylo. (Mae'n bwysig iawn bod plant yn deall pwysigrwydd golchi dwylo'n dda fel nad yw germau yn cael eu lledu.) Y disgwyliad yw bod y plant yn sych yn dod i'r ysgol ac yn gallu sychu eu hunain yn annibynnol.
- Gofalu am eiddo personol e.e. adnabod pa got sy'n perthyn iddo a'i rhoi ar fachyn.
- Gwisgo eu hunain e.e. cot, esgidiau glaw ac esgidiau.
- Adnabod eu henwau, fel y medrant adnabod eu bachyn cot.
- Tacluso a chymryd cyfrifoldeb am deganau.
- Bwyta'n annibynnol, er enghraifft, defnyddio cwpan yn gywir, gosod ffrwyth yn y bin.







# Cyswllt ysgol a chartref

Mae cyd-weithio rhwng yr ysgol a'r cartref yn hanfodol. Os oes gennych un-rhyw bryderon am eich plentyn, mae croeso i chi drefnu apwyntiad gyda'r ysgol ar unrhyw adeg.

Rydym hefyd yn trefnu prynhawniau agored gwahanol ar eich cyfer yn ystod y flwyddyn e.e. sesiynau celf a choginio, pan fyddwn yn eich gwahodd chi mewn i weithio gyda'ch plentyn.

# Salwch ac absenoldeb

Os ydy eich plentyn yn mynd i fod yn absennol, gofynnwn i chi hysbysu'r ysgol cyn gynted ag y bo modd, ar ddiwrnod sesiwn eich plentyn. Byddwn yn cysylltu gyda chi os ydy eich plentyn yn sâl yn ystod y dydd ac felly, mae'n hollbwysig bod eich manylion cyswllt yn cael eu diweddaru yn ôl yr angen.

# Meddyginiaeth

Os oes angen rhoi meddyginiaeth neu pwmp asthma i'r plant yn ystod oriau ysgol, bydd angen i chi lenwi ffurflen ganiatâd a sicrhau bod enw eich plentyn ar y meddyginiaeth.

# Diod a byrbryd

Rydym yn darparu diod o laeth i'r plant yn ddyddiol. Mae croeso i chi ddanfon **potel o ddŵr** (yn unig) i mewn i'r ysgol gyda'ch plentyn gan ein bod yn annog y plant i yfed digon o ddŵr yn ystod y sesiwn. Rydym yn hapus i ail-lenwi'r botel os oes angen.



Mae croeso i chi ddanfon darn o ffrwyth (wedi'i baratoi o flaen llaw) i mewn i'r ysgol gyda'ch plentyn yn ddyddiol.

**Mae'n hollbwysig eich bod yn gadael i ni wybod os oes unrhyw alergedd bwyd gyda'ch plentyn.**

# Gwisg ysgol

Er mwyn creu teimlad o 'berthyn' i'r ysgol, rydym yn annog y plant ar draws yr ysgol i wisgo gwisg ysgol. Lliwiau'r ysgol yw coch a llwyd. Mae'n bosib i ddewis e.e. trowsus/sgert/tracwisg neu rywbeth tebyg mewn llwyd gyda siwmper/ cardigan ysgol sy'n goch, gyda bathodyn yr ysgol. Mae'n bosib i archebu'r wisg o siop Pretty Miss yng Nghwmbrân.

**Ffôn**: 01633 484408. **Gwefan**: www.kidsschoolkits.com



Sicrhewch, os gwelwch yn dda, bod enw eich plentyn ar bob dilledyn.

Gwisgwch eich plant mewn dillad addas i'r tywydd.

Byddwn yn ceisio mynd allan ym mhob tywydd.

# Dillad Sbâr

Mae damweiniau yn digwydd, felly pan fydd eich plentyn yn dechrau yn y Feithrin, a wnewch chi ddanfon i mewn i'r ysgol bag o ddillad sbâr ag <u>enw'ch plentyn arno</u>? Bydd y bag yn cael ei gadw yn yr ysgol tan fod ei angen. Gofynnwn bod y bag yn cael ei ail lenwi os oes rhywbeth yn cael ei ddefnyddio.

# Addysg Gorfforol

**Cynhelir dwy sesiwn Addysg Gorfforol bob wythnos.**



**Sesiwn tu fas**: Bydd y sesiwn hon yn digwydd tu allan, ar iard yr ysgol. Nid oes angen unrhyw ddillad arbennig ar gyfer y sesiwn iard. Byddwn yn defnyddio'r beiciau, y ffrâm ddringo a.y.y.b yn ystod y sesiwn hon.

**Sesiwn tu fewn:** Bydd y sesiwn hon yn digwydd yn neuadd yr ysgol. Gofynnwn i chi wisgo'ch plentyn mewn dillad ymarfer corff/cyffyrddus e.e. tracwisg/ 'leggings' a chrys-t (neu ddillad tebyg) i ddod i'r ysgol ar ddiwrnod y wers. Bydd hwn yn sicrhau bod mwy o amser gyda ni ar gyfer y wers. Rydym yn cynnal y wers yn y neuadd yn droed noeth ac felly, os oes gan eich plentyn esgidiau gyda felcro, mi fydd hynny'n help mawr i ni hefyd.

# Cyn ysgrifennu a darllen

## Cyn y gall eich plentyn ysgrifennu, rhaid iddo allu:



- Tynnu llun dynol manwl;
- Mwynhau defnyddio pensil a'i ddefnyddio'n gywir; (peidiwch cywiro os defnyddir y llaw chwith)
- Sylwi ar wahaniaethau bach mewn lluniau; (mae llythrennau fel p, d, b yn debyg iawn)
- Dilyn llinell gyda'i fys;
- Tros ysgrifennu llinellau; (syth ac igam-ogam)
- Mwynhau a chael digon o brofiadau esgus ysgrifen-nu;
- Dilyn a chopïo patrwm dilyniannol.

## Cyn y gall eich plentyn ddechrau darllen, rhaid iddo allu:



- Mwynhau gwrando ar storiâu ac eisiau darllen;
- Trin llyfrau'n gywir;
- Siarad am luniau;
- Sylwi ar bethau tebyg a gwahanol;
- Darganfod dau lun yr un fath;
- Deall bod gan brint ystyr;
- Sylwi ar eiriau o'i gwmpas; (e.e. labeli bwyd, geiriau ar ddillad ayyb)
- Deall ein bod yn darllen o'r chwith i'r dde ac o'r top i'r gwaelod;
- Gallu copïo a dilyn patrwm dilyniannol;
- Adnabod y rhan fwyaf o synau;
- Gwybod rhai geiriau e.e. ei enw, enwau teu-lu ayyb.



# Disgyblaeth

Mae disgyblaeth yn Ysgol Gymraeg Cwmbrân yn gadarn ond yn deg ac yn gyson.

Dysgir, a disgwylir i'r plant drin offer yn ofalus, ac i dacluso ar eu holau. Rydym yn canmol y plant yn gyson. Os oes gennych chi neu eich plentyn bryderon, trafodwch gyda'r athro dosbarth. Credwn yn gryf ei bod hi'n bwysig iawn i rannu gwybodaeth. Bydd yr ysgol yn trafod unrhyw bryderon sydd gennym gyda chi hefyd fel ein bod ni'n gallu gweithio gyda'n gilydd i oresgyn unrhyw broblem.

# Ein nodau ac amcanion yn y blynyddoedd cynnar

*"Bydd plant yn dysgu trwy weithgareddau… uniongyrchol gyda… 'chwarae' yn darparu'r cyfrwng… "*

*"Mae profiadau uniongyrchol yn galluogi plant i ddatblygu dealltwriaeth o'u hunain a'r byd maent yn byw ynddo."*

(Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3-7 oed yng Nghymru)

Rydym yn ceisio gwneud hwn mewn awyrgylch diogel ac atyniadol; lle gwerthfawrogir ymdrech plant; a chyflwynir gweithgareddau gwahaniaethol, cynhwysol, ymarferol ac heriol sy'n annog annibyniaeth.








# Cwricwlwm i Gymru

| **Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu:** Yn y maes hwn, bydd y plant yn astudio amrywiaeth o storïau a cherddi, ac yn cyfathrebu mewn ffyrdd llafar, ysgrifenedig neu weledol. Anogir y plant i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob gweithgaredd yn ystod y dydd. | **Sut allwch chi helpu:** Rhowch cyfleodd i'ch plentyn arbrofi a gwneud marciau. Helpwch eich plentyn i adnabod ac adeiladu eu henw. Mae rhaglenni addas i'r plant ar Cyw ar S4C bob dydd. Darllenwch amrywiaeth o storïau gyda'ch plentyn yn aml. |
|---|---|
| **Mathemateg a Rhifedd:** Yn y maes hwn, bydd eich plentyn yn datblygu dealltwriaeth o rifau ac yn defnyddio symbolau mewn mathemateg. Byddant yn archwilio cysyniadau yn ymwneud â rhif, siâp, gofod, patrwm, pwysau, mesur, arian a chyfaint trwy amrywiaeth o weithgareddau ymarferol. | **Sut allwch chi helpu:** Gallwch dynnu sylw at gysyniadau mathemategol pob dydd e.e. rhifau ar ddrysau, cyfri gwrthrychau, chwarae gemau rhif, adio a thynnu gwrthrychau, cyfri wrth gerdded, tynnu sylw at, a chyfri arian wrth siopa a phwyso cynhwysion wrth goginio. |
| **Y Dyniaethau:** Yn y maes hwn, bydd eich plentyn yn dysgu am eu cynefin, y gymdeithas a'r byd o'u hamgylch, gan ffocysu ar ddigwyddiadau yn y gorffennol a'r presennol. Bydd y plant yn archwilio'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth a sut y gallwn ddiogelu'r byd a'i bobl yn y dyfodol. | **Sut allwch chi helpu:** Tynnwch sylw at y byd o'u cwmpas fel y bod cyfleoedd yn codi o ddydd i ddydd. |







# Cwricwlwm i Gymru

| Gwyddoniaeth a Thechnoleg: | Sut allwch chi helpu: |
|---|---|
| Yn y maes hwn, bydd eich plentyn yn dysgu am wyddoniaeth ffisegol, cyfrifiadureg a dylunio a thechnoleg. Byddant yn dysgu am ddylunio a pheirianneg, pethau byw, mater, grymoedd ac egni, a sut mae cyfrifiaduron yn gweithio. | Rhowch gyfleoedd i'ch plentyn arbrofi gydag amrywiaeth o ddeunyddiau e.e. dŵr, tywod, a deunyddiau naturiol sydd i'w canfod yn yr awyr agored.<br>Rhowch gyfleoedd i'ch plentyn ddilyn cyfarwyddiadau cam wrth gam i gyrraedd nod terfynol. |
| **Celfyddydau Mynegiannol:** | **Sut allwch chi helpu:** |
| Yn y maes hwn, canolbwyntir ar ddatblygu sgiliau creadigol, artistig a pherfformio trwy archwilio celf, dawns, cerdd, drama, ffilm a chyfryngau digidol. | Rhowch gyfleoedd i'ch plentyn arbrofi gydag amrywiaeth o ddeunyddiau e.e. pensiliau, creonau, deunydd 'collage', siswrn, glud. Anogwch eich plentyn i ganu, gwrando ar amrywiaeth o gerddoriaeth ac i chwarae offeryn syml. Rhowch gyfleoedd iddynt chwarae'n ddychmygol e.e. gwisgo lan. |
| **Iechyd a Lles:** | **Sut allwch chi helpu:** |
| Yn y maes hwn, bydd eich plentyn yn dysgu am iechyd corfforol a meddyliol gan gynnwys lles emosiynol. Mae plant yn dysgu amdanynt eu hunain a'u perthynas â phlant eraill ac oedolion o fewn eu teulu a thu allan iddo. Anogir y plant i gyfathrebu ag eraill ac i fod yn hyderus, annibynnol a chyfrifol. Byddant hefyd yn dysgu am fwyta'n iach a sut i wneud penderfyniadau da. | Siaradwch yn bositif gyda'ch plentyn am ffrindiau, perthnasau ayyb. Anogwch nhw i barchu eraill ac i fod yn annibynnol a chyfrifol e.e. i dacluso eu teganau, gwisgo eu hunain a rhannu.<br>  |

# Cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn aml

| | |
|---|---|
| **Pa fanteision sydd i fy mhlentyn fod yn ddwyieithog?** | Mae ymchwil yn dangos fod plant sy'n siarad mwy nag un iaith yn gallu meddwl yn fwy creadigol a hyblyg. Mae siarad iaith arall yn agor drysau i amrywiaeth o gyfleoedd a gweithgareddau gwahanol. Dwy iaith - dwywaith y dewis a dwywaith y cyfleoedd. |
| **Ydy Cymraeg yn iaith anodd i'w dysgu?** | Nac ydy! Gyda chefnogaeth, gall unrhyw blentyn ddysgu Cymraeg. |
| **A yw plant yn cymysgu rhwng y ddwy iaith?** | Ar y dechrau, bydd rhai plant yn defnyddio cymysgedd o'r ddwy iaith ond mewn dim, byddant yn gallu dweud y gwahaniaeth rhwng y ddwy iaith. Byddant yn ateb yn yr iaith mae'r person sy'n siarad gyda nhw yn ei defnyddio. |
| **Sut bydd y rhiant na all siarad Cymraeg yn teimlo a sut allant helpu?** | Nid oes rhaid iddynt deimlo allan ohoni. Mae'r rhan fwyaf o blant wrth eu bodd yn esbonio beth sy'n cael ei ddweud yn Gymraeg. Mae'n bwysig eu bod nhw'n cefnogi'r plentyn ac yn cymryd diddordeb. |
| **Os ydy un rhiant yn siarad Cymraeg, sut allant helpu?** | Mae hwn yn sefyllfa gyffredin yng Nghymru. Mae'n bwysig bod y rhiant sy'n gallu siarad Cymraeg yn siarad Cymraeg gyda'r plentyn cymaint â phosib. Mae hefyd yn bwysig eich bod yn dangos agwedd bositif at yr iaith. Dangoswch eich bod yn mwynhau siarad Cymraeg a bydd eich plentyn yn hefyd! |
| **Rwy'n hoffi darllen gyda fy mhlentyn, oes rhaid darllen yn y Gymraeg?** | Nac oes, darllen gyda nhw sy'n bwysig. Unwaith bydd eich plentyn wedi dysgu darllen, byddant yn defnyddio'r yr un sgiliau i ddarllen yn Gymraeg ac yn Saesneg. |

